



Bwletin GwE



Diolch Ysgolion Thank You Schools



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Llyfrgell Adnoddau Ysgol i Ysgol

Mae llyfrgell adnoddau ysgol i ysgol GwE bellach yn fyw. Yma, gallwch ddod o hyd i adnoddau sydd wedi'u creu gan ysgolion y rhanbarth i gefnogi gwahanol sefyllfaoedd sy'n codi yn ystod y cyfnod hwn. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi rhannu adnoddau hyd yma, ac rydym yn edrych ymlaen i dderbyn a rhannu mwy o adnoddau yn y dyfodol. Bydd mwy o adnoddau yn cael eu hychwanegu i'r llyfrgell yn rheolaidd felly cofiwch ymweld yn aml er mwyn gweld yr eitemau mwyaf diweddar. Gallwch gael mynediad i'r llyfrgell adnoddau drwy fynd i [wefan GwE](#) a chlicio ar [Adnoddau Ysgol i Ysgol](#) sydd i'w gweld ar frig y dudalen.



Canolfan Cefnogaeth GwE
GwE Support Centre



PRIF WEFAN
GW E

ADNODDAU
YSGOL I YSGOL

ENGLISH



Ysgol i Ysgol

Dewiswch eich cyfnod allweddol:

CS

CA2

CA3

CA4

CA5

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr.



Cynnig Proffesiynol GwE

Dilynwch y [ddolen hon at Gynnig GwE](#) ar gyfer y flwyddyn 2020-2021.

Mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnis ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledl.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

10/03/2021 - 26/03/2021	DYDDIAD	CYFRWNG
Cyfathrebu Cadarnhaol	10/03/2021	Saesneg
Prosiect Asesu Ffurfiannol/ Shirley Clarke – CYFARFOD ADOLYGU HAEN 3 (YSGOLION FFLINT/WRECSAM)	10/03/2021	Saesneg
Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol yn y cyfnod sylfaen ac ym mlwyddyn 3 (Cyfrwng Saesneg)	10/03/2021	Saesneg
Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol yn y cyfnod sylfaen ac ym mlwyddyn 3 (cyfrwng Cymraeg)	11/03/2021	Cymraeg
Prosiect Asesu Ffurfiannol/ Shirley Clarke – CYFARFOD ADOLYGU HAEN 3 (YSGOLION GWYNEDD)	11/03/2021	Cymraeg
Bioffilia: Gwyddoniaeth Natur ac Anifeiliaid: Pam fod treulio amser yn yr awyr agored yn ein gwneud yn hapusach, yn iachach ac yn fwy abl i ddysgu	12/03/2021	Saesneg
Cyfarfodydd Rhwydwaith Penaethiaid Saesneg	15/03/2021	Saesneg
Prosiect Asesu Ffurfiannol/ Shirley Clarke – CYFARFOD ADOLYGU HAEN 3 (YSGOLION MÔN)	15/03/2021	Cymraeg
ANG - Gweithdy Diwrnod 2: Diweddariad Cwricwlwm Cymru i ANG (Cyfrwng Cymraeg)	15/03/2021	Cymraeg
ANG - Gweithdy Diwrnod 2: Diweddariad Cwricwlwm Cymru i ANG (Cyfrwng Saesneg)	16/03/2021	Saesneg
ANG - Gweithdy Diwrnod 2: Diweddariad Cwricwlwm Cymru i ANG (Cyfrwng Cymraeg)	16/03/2021	Cymraeg
ANG - Gweithdy Diwrnod 2: Diweddariad Cwricwlwm Cymru i ANG (Sesiwn ychwanegol dwyieithog, am 3:45yp)	16/03/2021	Dwyieithog
Llythrennedd a Rhifedd: Dylunio eich Cwricwlwm yn CA2 (cyfrwng Saesneg)	16/03/2021	Saesneg
Llythrennedd a Rhifedd: Dylunio eich Cwricwlwm yn CA2 (Cyfrwng Cymraeg)	17/03/2021	Cymraeg
Cyfarfodydd Rhwydwaith Penaethiaid Saesneg	17/03/2021	Saesneg
Prosiect Asesu Ffurfiannol/ Shirley Clarke – CYFARFOD ADOLYGU HAEN 3 (YSGOLION CONWY)	17/03/2021	Dwyieithog
ANG – Gweithdy Diwrnod 2b: Lles ar draws y Cwricwlwm i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) (Cyfrwng Cymraeg)	17/03/2021	Cymraeg
ANG – Gweithdy Diwrnod 2b: Lles ar draws y Cwricwlwm i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) (Cyfrwng Saesneg)	18/03/2021	Saesneg
Prosiect Asesu Ffurfiannol/ Shirley Clarke – CYFARFOD ADOLYGU HAEN 3 (YSGOLION FFLINT/WRECSAM)	18/03/2021	Saesneg
ANG - Gweithdy Diwrnod 2: Diweddariad Cwricwlwm Cymru i ANG (Cyfrwng Saesneg)	19/03/2021	Saesneg
Y Rhestr Wirio Arsylwi	19/03/2021	Saesneg
Prosiect Asesu Ffurfiannol/ Shirley Clarke – CYFARFOD ADOLYGU HAEN 3 (YSGOLION GWYNEDD)	22/03/2021	Cymraeg
Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol (CYMORTHYDDION CYNRADD)	22/03/2021	Dwyieithog
Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol (CYMORTHYDDION UWCHRADD)	23/03/2021	Dwyieithog
Prosiect Asesu Ffurfiannol/ Shirley Clarke – CYFARFOD ADOLYGU HAEN 3 (YSGOLION DINBYCH)	23/03/2021	Dwyieithog
ANG – Gweithdy Diwrnod 2b: Lles ar draws y Cwricwlwm i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) (Sesiwn ychwanegol am 3:40yp)	24/03/2021	Dwyieithog
Prosiect Asesu Ffurfiannol/ Shirley Clarke – CYFARFOD ADOLYGU HAEN 3 (YSGOLION MÔN)	24/03/2021	Cymraeg
Prosiect Asesu Ffurfiannol/ Shirley Clarke – CYFARFOD ADOLYGU HAEN 3 (YSGOLION CONWY)	25/03/2021	Dwyieithog

Cynnig Proffesiynol GwE

Nodyn i'ch atgoffa bod hyfforddiant a chyfarfodydd diweddar gan y Tîm Llythrennedd a Rhifedd a thîm y Cyfnod Sylfaen yn cael eu llwytho i dudalen 'Gweminarau' yng [Nghanolfan Cefnogaeth GwE](#).



Newyddion a Gwybodaeth GwE

Dyfodol Byd-Eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol

YSGOLION UWCHRADD

Cyfarfod Hwb: Ar Zoom

Cyfarfod nesaf: **Dydd Iau, 11 Mawrth (3.30- 4.30 pm): Dangos a Dweud**

A fydddech cystal â rhoi gwybod i mi neu i'ch arweinydd Hwb a fyddwch chi'n mynychu'r cyfarfod

(stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru)

[Cliciwch yma](#) i ymuno â'r cyfarfod ar Zoom.

Cyfarfod Rhwydwaith CDG a Chynlluniau Asesu: Dydd Mercher 17 Mawrth 3.30 pm - ar Zoom

Gwybodaeth a chofrestru: cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

YSGOLION CYNRADD

Mae Swyddfa Addysg Llysgenadant Sbaen (Consejería de Educación) mewn cydweithrediad â Junta de Castilla y León yn cynnig sesiwn ar-lein hanner diwrnod i athrawon cynradd ar 20 Mawrth: Syniadau ar gyfer addysgu Sbaeneg yn y Cynradd. Bydd yn cynnwys 3 gweithdy ymarferol a gyflwynir yn ddwyieithog yn Sbaeneg a Saesneg:

- 9:00 - Pileri geirfa Sbaeneg ar gyfer myfyrwyr cynradd.
- 10:00 - Beth am ddod i adnabod Sbaen: gêm i ddechrau gyda diwylliant Sbaen.
- 11:00 - Dywedwch stori wrthyf: prosiect i ddefro emosiynau mewn dosbarth Sbaeneg.

Mae cofrestru am ddim ac mae eisoes ar agor: <https://forma.administracionelectronica.gob.es/form/open/corp/4804/PDzF>

Gall cyfranogwyr ennill ysgoloriaeth ar gyfer cwrs hyfforddi yn Castilla y León yn y raffl a fydd yn digwydd ar ddiwedd y sesiwn.

Cylchlythyr Dyfodol Byd-eang

Mae'r rhifyn diweddaraf o gylchlythyr Dyfodol Byd-eang GwE ar gael yn awr. Cliciwch ar y botymau isod.

SECTOR CYNRADD

SECTOR UWCHRADD



Hyfforddiant Proffesiynol ar Addysg Ariannol

Gwahoddir pob ymarferydd sydd yn gweithio gyda dysgwyr 9 i 12 oed i gymryd rhan ym mhrosiect Braenaru Cymru. Bwriad y prosiect yw rhoi cyfleoedd i ymarferwyr ddatblygu'n broffesiynol er mwyn cefnogi gwybodaeth, sgiliau ac agweddau eu dysgwyr ym meysydd allweddol addysg ariannol. Ariennir y prosiect gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau ac fe'i gyflwynir gan Young Money gyda chymorth GwE dros dymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021. Darperir hyfforddiant, adnoddau a chymorth parhaus yn rhad ac am ddim i bawb a fydd yn cymryd rhan, a thelir costau llanw hefyd.

Prosiect Asesu Ffurfiannol / Shirley Clarke

CYFARFODYDD ADOLYGU YSGOLION HAEN 3 - MAWRTH 2021

Estynnir gwahoddiad i athrawon ysgolion Haen 3 y prosiect ymuno â ni mewn cyfarfodydd adolygu er mwyn rhannu profiadau dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrych ymlaen i'r dyfodol. Bydd cyfleoedd i ystyried asesu ffurfiannol yng nghyd-destun dysgu cyfunol, a hefyd addysgeg yn ein paratoadau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

Cynhelir y cyfarfodydd o 3:15 hyd 4:30 ar y dyddiau canlynol:

- 15 Mawrth / 24 Mawrth - ysgolion Môn
- 11 Mawrth / 22 Mawrth - ysgolion Gwynedd
- 17 Mawrth / 25 Mawrth - ysgolion Conwy
- 8 Mawrth / 23 Mawrth - ysgolion Dinbych
- 10 Mawrth / 18 Mawrth - ysgolion Fflint/ Wrecsam



Diweddariad SAFMEDS

Mae adnoddau newydd i gefnogi defnyddio strategaeth rifedd SAFMEDS yn yr ysgol ac yn y cartref bellach ar gael i'w lawr lwytho o [Ganolfan Cefnogaeth GwE](#).

Bydd **Kaydee Owen** (Swyddog Cefnogi Ymchwil) yn cynnal sesiynau galw heibio (rhwng 9yb a 5yp) ar y dyddiadau hyn:

Trefnwch amser un i un ar-lein: <https://calendly.com/safmeds/drop-in>.

- 11 Mawrth
- 15 Ebrill
- 10 Mai
- 8 Mehefin

I gael unrhyw gymorth ychwanegol tu allan i'r dyddiadau neilltuol hyn, anfonwch e-bost at kaydee.owen@bangor.ac.uk.

Ar gyfer unrhyw athrawon neu staff cymorth sydd eisiau hyfforddiant SAFMEDS llawn ar-lein, gwyliwch y [fideo sydd yn cyflwyno](#)

Adnoddau Dysgu Cyfunol

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth:

Saesneg - [School Guide](#) | Cymraeg – [Gwybodaeth i ysgolion](#)

Cylchlythyr Gwyddoniaeth Gynradd gan PSTT

Ar hyn o bryd mae Ymddiriedolaeth Addysgu Gwyddoniaeth Gynradd (PSTT) yn gweithio gyda nifer o ysgolion cynradd ledled Gogledd Cymru i wella safon gwyddoniaeth. Mae mentor rhanbarthol PSTT, Kathy Schofield bellach yn cynhyrchu [cylchlythyr](#) bob hanner tymor i rannu gwybodaeth ddefnyddiol am agweddau ar wyddoniaeth gynradd gyda holl ysgolion GwE.



Adnoddau STEM

Ydych chi'n chwilio am ffordd gyflym a hawdd o gael gwybod am adnoddau am ddim i'ch cefnogi i addysgu gwyddoniaeth a thechnoleg? Mae GwE yn gweithio gyda STEMpowered Learning i roi fersiwn ddwyieithog i ysgolion o'r diweddariad rheolaidd hwn am adnoddau. Cofrestrwch ar gyfer ein taenlen fisol am ddim yma: <http://eepurl.com/dMy9VQ>



Cwrs E-ddysgu Rhyngweithiol ADY

Mae Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarth y Gogledd yn falch o gyhoeddi bod y cwrs e-ddysgu rhyngweithiol sy'n cyflwyno'r system ADY newydd bellach ar gael ar lwyfan Hwb Llywodraeth Cymru.

[Dyma](#) erthygl newyddion Hwb yn cyflwyno'r cwrs, sydd ar dudalen hafan Hwb ar hyn o bryd. A [dyma'r ddolen](#) i'r cwrs ei hun.

Dylai'r cwrs gymryd 40-60 munud i'w gwblhau ac mae wedi'i anelu at staff ym mhob sector sy'n gweithio gyda plant a phobl ifanc, gan gynnwys staff cymorth ysgolion, ac mae'n rhoi trosolwg eang o'r rolau statudol newydd, egwyddorion allweddol y Ddeddf, adnabod ADY a ble i ddod o hyd i wybodaeth bellach.

Newyddlen Trawsnewid ADY

[Cliciwch yma](#) am ddiweddariad gan y tîm trawsnewid ADY rhanbarthol.



Rhaglen Dysgu Carlam

Peidiwch ag anghofio bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gael mynediad i'r adnoddau yn adran Sgiliau Carlam Canolfan Cefnogaeth GwE ar gael ar y dudalen gweminarau. Dilynwch y ddolen hon i weld recordiadau am **SAFMEDS**, **Headsprout**, **Cyflymu Llythrennedd a sgiliau Rhifedd**, yn ogystal â'r adolygiadau o **becynnau cymorth llythrennedd a rhifedd ar-lein**.

Ail hysbyseb: Allwch chi sbario deng munud i gwblhau arolwg byr am y ddarpariaeth les yn ysgolion GwE?

Mae GwE wrthi'n cydweithio â Phrifysgol Warwick i ymchwilio i'r ddarpariaeth ysgol gyfan ar gyfer lles meddyliol yn ysgolion Gogledd Cymru. Byddem yn ddiolchgar iawn cael cydweithrediad pob ysgol i'n helpu ni i gael darlun cynhwysfawr o'r ddarpariaeth ysgol gyfan ar gyfer lles meddyliol yn y rhanbarth. Bwriadwn ddefnyddio'r canfyddiadau hyn fel sail dystiolaeth i wella'r cymorth a roddir gan GwE i wella llesiant disgyblion. Mae'r fenter bwysig hon wedi magu mwy o arwyddocâd wrth i ysgolion a disgyblion addasu i'r heriau oherwydd pandemig y coronafirws.

Am ragor o wybodaeth cliciwch [yma](#). I weld yr arolwg cliciwch [yma](#).

Gwybodaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru

Ymgyrch Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad

Mae'r Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad yn cefnogi'r teuluoedd hynny sydd arnynt fwyaf ei angen gyda chostau gwisg ysgol, offer a chyfarpar: dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant mewn gofal.

Mae blynyddoedd ysgol newydd bellach yn gymwys ac mae meini prawf wedi'u hymestyn i gynnwys gliniaduron neu dabledi.

Ceir rhagor o fanylion [yma](#). [Cliciwch yma](#) i weld y pamffled.



Wythnos Wyddoniaeth Prydain

Fel rhan o **Wythnos Wyddoniaeth Prydain**, mae Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru wedi creu cyfres o fideos gan ymchwilwyr blaenllaw rhaglen Sêr Cymru ledled Cymru. Rhaglen gyllid sy'n dod â thalent wyddonol i swyddi ymchwil yng Nghymru o bob cwr o'r byd er 2012 yw Sêr Cymru, rhaglen uchel ei pharch sy'n werth miliynau o bunnoedd.

Rydym am wahodd dysgwyr ac athrawon i edrych ar y sesiynau hyn er mwyn dysgu rhagor am yr ymchwil y mae prif ymchwilwyr gwyddonol Cymru yn gweithio arno. Mae'r fideos hyn yn targedu dysgwyr Safon Uwch/UG Blynyddoedd 12 ac 13 yn benodol ac yn gmysgedd o weminarau a sgysiau byr.

Bydd y fideos ar gael ar [wefan Hwb](#) o 8 Mawrth 2021.

Y tu hwnt i Covid: Dysgu yn y Cyfnod Nesaf

Wrth inni edrych ymlaen yn frwd at ailgydio mewn addysgu wyneb yn wyneb, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r cyfle i chi ymuno â sgwrs ar-lein genedlaethol. Bydd yn gyfle i rannu profiadau a dysgu, i helpu ein gilydd i gynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod ac i'r dyfodol, a helpu i lywio sut rydym am symud ymlaen ar ôl Covid.

Bydd fideos byr gan addysgwyr blaenllaw yn cael eu rhannu i ysgogi trafodaethau yn eich ysgolion, a fframio'r sgysiau ar y diwrnod. Bydd pob ysgol yn cael ei hariannu i anfon un cynrychiolydd i ddigwyddiad, a fydd wedyn yn ystyried ac yn trafod yn ôl yn yr ysgol ac yn parhau i gyfrannu. Nid yw'n ofynnol i fynychwyr fod â rôl benodol e.e. Pennaeth neu uwch arweinydd. Rydym yn croesawu amrywiaeth o safbwyntiau.

Cynhelir sgysiau ar y dydd mewn 'ystafelloedd' o hyd at 20 o ymarferwyr, dan arweiniad eu cyd-ymarferwyr.

Dyddiadau ac amseroedd:

- Dydd Mercher 10 Mawrth, 15.30 – 18.00
- Dydd Iau 18 Mawrth, 10.00 – 12.30
- Dydd Mawrth 23 Mawrth, 15.30 – 18.00

Gwybodaeth bellach ar gael trwy [Tudalen ddigwyddiadau](#) Hwb.

Cofrestrwch drwy [Eventbrite](#) ac anfonwch e-bost at MyraDavies@GwEGogledd.Cymru

Ymchwil i Recriwtio Lleiafrifoedd Ethnig i Addysg Gychwynnol Athrawon (ITE) a'r Proffesiwn Addysgu


Bydd y prosiect pwysig hwn a fydd yn rhedeg tan ddiwedd mis Mawrth 2021 yn llywio'r newidiadau sydd eu hangen i gynyddu'r broses o recriwtio myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i'r proffesiwn addysgu.

Rhagor o fanylion: [cliciwch yma](#).

I gyfrannu, cliciwch ar un o'r dolenni isod:

Cyfweliad un i un: https://cardiffmet.eu.qualtrics.com/jfe/form/SV_8cEkr1GOjL7bSpE

Grŵp Ffocws: https://cardiffmet.eu.qualtrics.com/jfe/form/SV_4SztNdyZfVLw6oe




Newyddion a Gwybodaeth Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

WYTHNOS FFOCWS GRANT DATBLYGU DISGYBLION A CHEFNOGI DYSGWYR BREGUS: EFFAITH AC ARFER SY'N SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH

22 - 26 MAWRTH - 09:30 – 10:30 a 10:30 – 11:30

Siaradwyr allweddol/ ystod o weithdai bob dydd gyda'r hyblygrwydd i ddewis a dethol.

Gweler [linc](#) am fanylion pellach a sut i gofrestru.



Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Manteisiwch ar gyfle i Gyflogi Cynorthwydd Iaith yn eich Ysgol

Mae ein cynorthwydd iaith yn siaradwyr Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Sbaeneg a Mandarin rhugl sy'n dod o 14 o wledydd gwahanol. Gallant helpu eich disgyblion i ddatblygu eu sgiliau sgwrsio a dod i ddeall diwylliannau eraill. Mae'r British Council yn annog ysgolion i rannu cynorthwydd iaith rhwng sawl ysgol er mwyn lleihau'r gost i bawb. Gwnewch gais erbyn 30 Ebrill drwy wefan y British Council: <https://www.britishcouncil.org/school-resources/employ-language-assistant>

Cysylltwch â ni: TeamWales@britishcouncil.org



Arolwg Mwyaf Erioed o'r Gweithlu Addysg yng Nghymru

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), ynghyd a'u partneriaid sef Llywodraeth Cymru, cyflogwyr, undebau llafur a chorfforaethau allweddol eraill yng Nghymru, wedi lansio'r arolwg mwyaf erioed o'r gweithlu addysg yng Nghymru.

Caiff pob un o'r 80,000 ymarferwr sydd wedi cofrestru efo CGA mewn ysgolion, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a gwaith ieuenctid gyfle i ddylanwadu ar lunio polisi yng Nghymru drwy ddweud eu dweud am y prif faterion sy'n eu heffeithio, megis baich gwaith, lles, hyfforddiant ac effaith Covid-19.

Cafodd yr arolwg gweithlu cenedlaethol ei lansio yn Chwefror 2021 ac mae ar agor tan 9 Ebrill 2021. Mae holl ymarferwyr CGA wedi derbyn gwahoddiad i'w gwblhau. Gellir gwneud hynny drwy ddilyn y ddolen hon: <https://www.ewc.wales/aga-ews/index.php/cy/>



Eisteddfod T - Urdd Gobaith Cymru

Mae Eisteddfod T yn ei hôl, a dyma gyfle i'n holl ddisgyblion gystadlu yng ngŵyl ddigidol yr Urdd eleni!

Yn giamstar ar berfformio neu adrodd jôc, yn feistr *lip-sync* neu'n hoff o ddynwared enwogion? O'r traddodiadol i TikTok, o'r canu i'r celf a chrefft, o'r alaw werin i'r anifeiliaid anwes, mae yna rywbeth i bawb yn Eisteddfod T.


A cofiwch, does dim angen bod yn aelod o'r Urdd i gystadlu eleni!

Mae Rhestr Testunau 2021 a chyfarwyddiadau ar sut i gystadlu bellach ar gael yma: <http://s4c.urdd.cymru/cy/cystadlu/>

Bydd y cystadlu yn agor ar 1 Mawrth, a bydd angen i'r Urdd dderbyn yr holl berfformiadau neu waith erbyn 26 Mawrth drwy ei uwchlwytho i'r wefan uchod.

Mae croeso i chi gysylltu â eisteddfod@urdd.org gyda unrhyw gwestiwn, ac edrychwn ymlaen i weld eich ceisiadau.

Ewch amdani!



Sesiynau Carlam Cymru - e-sgol

Mae pandemig Covid wedi arwain at fyfyrwyr ledled Cymru yn colli allan ar rai agweddau a'r cyfle i wella eu sgiliau mewn amryw o bynciau TGAU, UG a Safon Uwch.

Bydd y sesiynau / gweminarau hyn yn cael eu darlledu'n fyw ar Microsoft Teams ac yn cael eu hwyluso gan athrawon o bob rhan o Gymru sydd ag arbenigedd yn y pwnc y byddan nhw'n ei gyflwyno. Bydd y sesiynau a gyflwynir yn cael eu recordio a gellir eu defnyddio yn ddiweddarach.

Am ragor o wybodaeth gan gynnwys pa bryd y cynhelir y sesiynau, ewch i'r wefan [hon](#) neu dilynwch y cyfarwyddiadau ar y [poster](#).



Parentkind – Llais Rhiant

Fel y gwyddoch efallai, mae'r cwricwlwm yng Nghymru yn newid er gwell. Bydd hyn yn helpu pobl ifanc i fod yn barod ar gyfer y dyfodol a bod yn greadigol, i greu ynddynt eu hunain a bod yn ddinasyddion gwybodus o Gymru a'r byd.

Mae Parentkind yn gweithio gyda Cymwysterau Cymru i lunio tri grŵp ffocws bach o rieni i drafod pa TGAU y dylid eu cynnig o 2025. Os hoffech gael y cyfle i gymryd rhan, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

I gofrestru diddordeb mewn bod yn rhan o grŵp ffocws, anfonwch e-bost i takepart@parentkind.org.uk

Hoffai Cymwysterau Cymru glywed gan gynifer o rieni â phosibl trwy'r ffurflen ymgynghori. Mae'n arbennig o bwysig os ydych chi'n rhiant neu'n ofalwr disgybl ysgol gynradd gan y bydd y broses hon yn helpu i lunio eu dyfodol.

Cwblhewch y ffurflen ymgynghori yma <https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol---dweud-eich-dweud/>

Parentkind
Bringing together home & school



Galwad: Ysgolion Cynefin: Pobol Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig Cymru

Fel rhan o raglen Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau, mae'n bleser gan Gyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru gyhoeddi cyfle newydd, cyffrous i ysgolion.

Trwy'r cynnig hwn ein nod yw sicrhau y bydd athrawon a dysgwyr yng Nghymru yn cael cyfle i:

- Archwilio hanes a datblygiad Cymru fel cymdeithas amlddiwylliannol
- Archwilio profiadau a chyfraniadau amrywiol pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, ddoe a heddiw
- Gweithio ochr yn ochr ag Ymarferwyr Creadigol mewn amgylchedd dysgu i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Cefnogi ysgolion i baratoi ar gyfer Cwricwlwm Cymru 2022

Sut i wneud cais

Gellir dod o hyd i ffurflen gais ar gyfer Cynefin: Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig Cymru [yma](#).

Ceir mwy o fanylion [yma](#).

Mae'r ceisiadau'n cau hanner dydd, 15 Mawrth 2021.



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

★★★ LLYFRAU AM DDIM I DDYSGWYR BLWYDDYN 6 ★★★

Pecynnau llyfrau Teithiau ac Anturiaethau i blant ym Mlwyddyn 6

Bwriad Teithiau ac Anturiaethau yw cefnogi plant gyda'u dysgu a'u datblygu drwy eu denu i fwynhau profiadau darllen a datblygu arferion darllen er pleser.

Sut ydw i'n cymryd rhan?

- Llenwch y ffurflen gofrestru **ar y cyfle cyntaf**: <https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=160683340905>

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: booktrustcymru@booktrust.org.uk

YN FYW TAN: 26/03/2021



Prosiect Pleidlais

Etholiad Senedd paralel yw'r Prosiect Pleidlais, wedi ei anelu at bobl ifanc 11-15 oed, ac wedi ei drefnu gan y Comisiynydd Plant. Gall ysgolion uwchradd a sefydliadau eraill gofrestru nawr trwy ymweld â www.prosiectpleidlais.cymru. Bydd ganddynt fynediad i adnoddau ar-lein, yn cynnwys pecynnau dysgu gartref. Bydd pleidleisio ar-lein yn cymryd lle ddiwedd mis Ebrill, a byddwn ni'n cyhoeddi map canlyniadau. [Dyma fideo](#) sy'n esbonio mwy.



post@gwegogledd.cymru

